ichthus

CYLCHGRAWN CHWARTEROL EGLWYS BEREA NEWYDD, BANGOR
Rhif 2 Cyfrol 13 Ebrill 2016

www.gofalaethbangor.org - 01248 353132 (swyddfa)



‘Yn gynnar iawn y bore Sul...’

MWY AR DUDALEN 13

GWASANAETHAU'R SUL

10.00: OEDFA DEULUOL GAN GYNNWYS YSGOL SUL Y PLANT
11.00: YSGOL SUL YR OEDOLION **5.30:** OEDFA'R NOS

Mai 1	Parch. Eric Jones
Mai 8	Parch, Geraint Roberts (5.30)
Mai 15	Gweinidog *Cymun bore; Y Gadeirlan hwyr*
Mai 22	MOLIANT Y PLANT *ym Methesda – bore a hwyr*
Mai 29	Parch. W.H. Pritchard
Mehefin 5	Gweinidog *Cymun bore*
Mehefin 12	Parch. W.R. Williams
Mehefin 19	Gweinidog
Mehefin 26	Parch. John Owen
Gorffennaf 3	GŴYL PEN TYMOR
Gorffennaf 10	Parch. Dafydd Andrew Jones
Gorffennaf 17	Gweinidog *Cymun hwyr*
Gorffennaf 24	Penuel *hwyr*

DYLETSWYDDAU BLAENOR Y PYTHEFNOS

Ebrill 24	Elin Walker Jones
Mai 1/8	Arfon Evans
Mai 15/22	Wyn Griffiths
Mai 29	Maldwyn Thomas
Mehefin 5	Maldwyn Thomas
Mehefin 12/19	Gwilym Roberts
Mehefin 26	Delyth Oswy Shaw
Gorffennaf 3	Delyth Oswy Shaw
Gorffennaf 10/17	Menna Baines
Gorffennaf 24/31	Elizabeth Roberts

DYLETSWYDDAU BLAENOR Y DRWS

Ebrill 24	Gwyn Jones
Mai 1	Gwyn Jones
Mai 8/15	Gwenno Pritchard
Mai 22/29	Cynthia Owen
Mehefin 5/12	Elin Walker Jones
Mehefin 19/26	Arfon Evans
Gorffennaf 3/10	Wyn Griffiths
Gorffennaf 17/24	Maldwyn Thomas
Gorffennaf 31	Gwilym Roberts

RHODDWYR Y BLODAU (Cydlynydd: Elizabeth Roberts - 353915)

Ebrill 24	Menna Baines
Mai 1	Enyd Roberts
Mai 8	Maisie Griffiths
Mai 15	Dilys Jones
Mai 22	Sara Jones
Mai 29	Cynthia Owen
Mehefin 5	Manon Ogwen
Mehefin 12	Mair Thomas
Mehefin 19	Arwyn Evans
Mehefin 26	Nia Williams
Gorffennaf 3	Mair Thomas
Gorffennaf 10	Gracie Williams
Gorffennaf 17	Elin Walker Jones
Gorffennaf 24	Eirlys Jones
Gorffennaf 31	Lynn Jones

GAIR GAN Y GWEINIDOG

Y PARCHEDIG ELWYN RICHARDS

'... aeth y gaeaf heibio, ciliodd y glaw a darfu; y mae'r blodau yn ymddangos yn y meysydd, daeth yn amser i'r adar ganu, ac fe glywir cân y durtur yn ein gwlad.' (Caniad Solomon 2: 11–12)

Dyna fel y mae dyfodiad y gwanwyn yn cael ei gyfleu yng Nghaniad Solomon, ac wedi gaeaf hir a gwlyb, diau y gallwn ninnau uniaethu â'r ymdeimlad o obaith ac adnewyddiad sydd yn yr adnod hon. Ac yn y cyfnod hwn rhwng Pasg a Sulgwyn y mae'n briodol fod yr eglwys yn pwysleisio ei gobaith hithau; *'gobaith nid o ddyn na daear / ond o goncwest ar y bryn'.*

Ond cofier mai cân serch yw Caniad Solomon, ac mai anogaeth i'w anwylyd ddod allan o'i thrigfan i'w gyfarfod sydd gan yr awdur yma. Dyna'r anogaeth i bobl Dduw hefyd ym mhob cyfnod; i ymysgwyd ac adnewyddu, a chyfarfod eu Harglwydd yng ngwanwyn ei atgyfodiad.

Am hynny, y mae'r traddodiad Protestannaidd Diwygiedig, yr ydym ni fel enwad yn perthyn iddo, wedi pwysleisio mai gwaith parhaus yw diwygio a datblygu bywyd yr Eglwys, ac mae'n naturiol ein bod ninnau ym Merea Newydd yn ystyried sut y dylem ddatblygu'r achos i'r dyfodol. Ers rhai misoedd y mae'r blaenoriaid wedi bod yn ystyried ein hanghenion a'n cyfleoedd gyda golwg ar hynny, a chyda'n gilydd, wrth ymgynghori a rhannu syniadau fel cynulleidfa, hyderwn y gallwn barhau i ymateb yn greadigol i her ein hamgylchiadau.

Yn y rhifyn diwethaf o Ichthus (Ionawr) cyfeiriais at ddaeargryn a effeithiodd ar ogledd-ddwyrain India gan beri dychryn a cholled, a gwneud niwed i nifer o eglwysi. Ddiwedd Ebrill a dechrau Mai byddaf fi a Gwenda yn ymweld â'r ardal gan i mi gael gwahoddiad i bregethu yng Ngymanfa Gyffredinol Eglwys Bresbyteraidd India yn Mawsynram. Manteisiwn ar y cyfle hefyd i ymweld ag Ysbyty H. Gordon Roberts yn Shillong y bu Apêl y Llywydd y llynedd yn codi arian tuag ati, ac â chartrefi i blant yn Shillong, Wahajier a Mawphlang, a gaiff eu cynnal gan yr eglwys, gan ddwyn gyda ni yr arian a gasglwyd yn yr oedfa arbennig ar 17 Ebrill a thrwy daith Gwenda ar y wifren wib ym Methesda ac ati. Diolch o galon i bawb sydd wedi cyfrannu drwy'r amrywiol gasgliadau, a hyderaf y bydd i'r gwaith yng ngogledd-ddwyrain India barhau i gael lle yn ein gweddïau.

Anfonwn ein cofion at bawb sydd yn wael ac yn llesg, y rhai hynny o'n haelodau nad ydynt yn gallu dod i'r oedfaon, a phob teulu sydd mewn profedigaeth. Gweddïwn y bydd Duw yn gymorth ac yn nerth i chwi oll. Carwn hefyd ofyn am eich cefnogaeth a'ch gweddïau i un o'n blaenoriaid, Mrs Delyth Oswy-Shaw, wrth iddi gychwyn ar ei gwaith fel cydlynydd hyfforddiant Eglwys Bresbyteraidd Cymru. Bydd yn gyfrifol am drefnu hyfforddiant cymwys i aelodau a blaenoriaid a phawb sy'n ymwneud â gweinidogaethau amrywiol yr eglwys, a hyderaf y bydd amryw ohonom maes o law yn manteisio ar yr hyn y bydd yn ei ddarparu.

Gyda dymuniadau da a chofion caredig,
Elwyn Richards

GOLWG ARALL AR BEIBL.NET

DELYTH DAVIES

Yn y rhifyn diwethaf o Ichthus cafwyd adolygiad a oedd yn bur feirniadol o Beibl.net ar sawl cyfrif. Ond ei ganmol fel testun hygyrch sydd o ddefnydd mawr y mae cyn-Swyddog Plant ac Ieuenctid Gofalaeth Bangor, sydd bellach yn Swyddog Dysgu a Datblygu gyda'r Eglwys Fethodistaidd yng Nghymru.

Yn ystod y misoedd diwethaf cyhoeddwyd Beibl newydd yn Gymraeg. Hwn yw'r trydydd fersiwn Cymraeg o'r Beibl yn dilyn cyhoeddi Beibl William Morgan yn 1588 a'r Beibl Cymraeg Newydd yn 1988 (a'r fersiwn diwygiedig yn 2004) ond mae'r fersiwn diweddaraf hwn wedi bod ar gael ers nifer o flynyddoedd cyn hyn. Sôn yr wyf am yr argraffiad o beibl.net a gyhoeddwyd yn Nhachwedd 2015, er bod modd ei ddarllen a'i argraffu oddi ar y we ymhell cyn hynny.

Yn ôl gwefan beibl.net mae hwn yn aralleiriad cwbl wreiddiol o'r Beibl. Nid fersiwn diwygiedig o'r beiblau Cymraeg oedd eisoes yn bod mohono na chyfieithiad o unrhyw fersiwn Saesneg. Y bwriad gwreiddiol oedd cyflwyno'r Testament Newydd mewn iaith lafar syml yn benodol ar gyfer pobl ifanc (yn enwedig y rhai heb gefndir capel neu eglwys) a dysgwyr. Gwnaed ymdrech hefyd i ddefnyddio iaith gynhwysol. Roedd yr ymateb mor gadarnhaol fel yr aed ati i baratoi fersiwn llafar tebyg o lyfrau'r Hen Destament. Fe'i cyhoeddwyd ar y we am ddau brif reswm, yn gyntaf i alluogi unrhyw un sy'n siarad Cymraeg mewn unrhyw ran o'r byd gael mynediad ato ac yn ail, fel y gallai pobl wneud sylwadau arno ac awgrymu sut y gellid ei wella. Fel un sy'n ddarllenydd proflenni cwrs sydd ar gael yn unig ar y we i bregethwyr yr Eglwys Fethodistaidd, gallaf weld manteision cyflwyno testun ar y we gan y gellir ei ddiwygio a'i addasu yn ôl yr angen gan sicrhau nad yw'r testun yn dyddio. Mantais arall o'i gael ar y we oedd y gellid argraffau pytiau ar gyfer pwrpas penodol ac addasu i ffurfiau llafar lleol. Rwy'n cyfaddef nad oeddwn yn hoff o ymadroddion megis 'dyn ni' ond roedd hi'n hawdd ei droi i 'dan ni' pan oedd angen paratoi darlleniad neu sgets ar gyfer gwasanaeth teulu ym Merea Newydd.
Bu galw mawr am gopïau mewn print am flynyddoedd ond cyndyn oedd y cyfieithydd i wneud hyn am y rhesymau a nodwyd eisoes. Yn y diwedd penderfynwyd mynd ati i argraffu ynghyd â Beibl lliw newydd i blant yn cynnwys testun o beibl.net. Fe wnaeth yr argraffiad cyntaf o 3,000 o'r beibl llawn werthu allan cyn cyrraedd y siopau.

Gyda dyfodiad beibl.net (Cymdeithas y Beibl, £14.99), mae'n dda bod mwy o ddewis ac amrywiaeth ar gael o destunau

beiblaidd. Pan fyddaf yn paratoi at arwain gwasanaeth gallaf gymharu'r tri fersiwn Cymraeg a dewis y testun sydd fwyaf priodol ar gyfer y pwrpas a'r neges. Mae'r un peth yn wir yn Saesneg gan y byddaf yn aml yn defnyddio'r amrywiaeth o'r NRSV i'r NIV, CEV, GNB a The Message. Mae gwefan www.bibles.org yn ddefnyddiol iawn ar gyfer chwilio a chymharu testunau mewn gwahanol fersiynau ac i chwilio am eiriau penodol yn y Beibl.

Mae'r defnydd a wnaf o beibl.net yn amrywio mewn gwahanol gyd-destunau. Byddaf yn derbyn e-byst yn ddyddiol gydag 'adnod y dydd' a darlleniad o'r Salmau ar gyfer defosiwn personol. Byddaf yn ei ddefnyddio gyda phlant a phobl ifanc mewn gwasanaethau teuluol neu glwb CIC. Byddaf hefyd yn ei ddefnyddio mewn gwasanaethau i oedolion fel sail i ddarlleniad ymatebol neu i weddïau ac yn aml byddaf yn cyflwyno testunau o'r BCND a beibl.net ochr yn ochr â'i gilydd mewn anerchiad er mwyn cynyddu dealltwriaeth o'r testun.

Os hoffech chi ymateb i'r erthygl yma, neu os oes gennych ymateb i unrhyw gynnwys arall yn Ichthus, yna rhowch inc ar bapur neu fys ar y sgrin; a'i yrru i:
4 Goleufryn, Penrhosgarnedd LL57 2LY
neu gdeiniol@hotmail.com

Yr hyn sydd fwyaf calonogol yw gweld plant a phobl ifanc yn gwneud defnydd rhwydd ohono, yn union fel y bwriadwyd. Pan fydd fy mhlant, sydd yn eu harddegau, yn arwain darlleniad mewn gwasanaeth nid yw'n anghyffredin eu gweld yn darllen o'u ffonau symudol! Rwyf hefyd wedi cyfarfod dysgwyr sy'n gwerthfawrogi gallu deall y testun am ei fod yn defnyddio'r ffurfiau sy'n gyfarwydd iddynt. Mae ein diolch yn fawr i Arfon Jones a'i gydweithwyr a fu'n gweithio'n ddiflino i gyfieithu'r testun ac i bawb a gyfrannodd at ddatblygiad y prosiect ar y we. Fy ngobaith a'm gweddi yw y bydd nifer o bobl yn cael bendith o'i ddefnyddio.

GWASANAETH SUL Y FAM

Ahithau'n Sul y Mamau ar 6 Mawrth, roedd gwasanaeth boreol Berea yn gyfle i glywed am brofiadau un fam arbennig iawn sef Mam Mair Iesu. Profiadau Mair ar lun darnau o sgript oedd sylfaen yr oedfa deulu hon a chawsant eu cyflwyno'n ddeheuig iawn gan Nia Roberts. Cawsom felly glywed Mair yn sôn am ei theimladau yr adeg y deallodd hi mai hi fydda'n rhoi genedigaeth i fab Duw, am y daith o Nasareth i Fethlehem, am noson y geni ei hun yn y stabl, ac am y daith i Jerwsalem ar gyfer Gŵyl y Pasg pan oedd Iesu'n ddeuddeg oed. Cawsom glywed

am ei rhyfeddod a'i balchder wrth Iesu, bellach yn ŵr tua'r deg ar hugain oed, droi dŵr yn win mewn priodas yng Nghana Galilea; ac yna disgrifiwyd y cyfnod pan oedd Iesu'n crwydro ar hyd y wlad gyda'i gyfeillion a Mair yn clywed ei hanes trwy eraill. Roedd geiriau olaf Mair yn fynegiant o'i theimladau ingol ar ddydd Gwener y Groglith.

Cafwyd darlleniadau o'r Beibl i gyd-fynd â geiriau Mair, a bu cyfle i'r gynulleidfa gyd-ddarllen cerdd W. Rhys Nicholas, 'Salm i'r Fam'. Cafwyd hefyd esboniad ar wreiddiau Cristnogol yr arfer o ddathlu Sul y Mamau. Mewn amser a fu roedd un Sul arbennig o'r flwyddyn – y pedwerydd Sul yng nghyfnod y Grawys – pan fyddai morwynion a gweision yn cael mynd adre i weld eu teuluoedd a mynychu'r eglwys lle'r arferent fynd yn blant, sef 'y fam eglwys'. Dros amser, daeth yr Eglwys i gydnabod y Sul arbennig hwn a'i alw'n Sul y Fam ac roedd hefyd yn gyfle i bobl yr Eglwys gofio am Mair mam Iesu.

Dyma flas o'r gwasanaeth yn y geiriau olaf i Mair eu llefaru. Diolch i awdur y sgript, y Parch. Gwenda Richards, am ganiatâd i'w hatgynhyrchu yma.

"Roedd 'na lawer iawn o betha y methais i'n lân a'u deall, – er imi drio fy ngora glas i wneud hynny. Roedd hi mor anodd ambell dro. A'r diwrnod hwnnw – dydd Gwener oedd hi – fe'i dilynais i o bob cam trwy strydoedd culion y ddinas ac i Golgotha. Roedd o bron â siglo dan bwysa'r Groes, a fedrwn i 'neud dim – ond edrych, a chrio. Fy mab i yn cael ei drin fel llofrudd ac yntau heb wneud dim o'i le. Fy hogyn bach i oedd o o hyd, a doeddwn i ddim yn deall. Ac yna mi glywais i sŵn yr hoelion ac fe godwyd y Groes. A bu Iesu farw. Gredwch chi fi'n dweud i minnau farw hefyd y diwrnod hwnnw!"

OEDFA SUL Y BLODAU

Fore Sul y Blodau trefnwyd i blant yr ysgol Sul gael brecwast yn y capel, a bu mynd mawr ar y *Coco Pops* a'r danteithion eraill. Yna cafwyd oedfa deulu dan arweiniad y Gweinidog pryd y cymerwyd rhan gan nifer o blant yr ysgol Sul ac ieuenctid y dosbarth derbyn, ynghyd â rhieni ac aelodau. Y thema oedd ymdaith Iesu i Jerwsalem ar gefn ebol asyn ar Sul y Blodau, a chafwyd sgets yn darlunio glanhawyr strydoedd Caersalem yn mynd at eu gwaith drannoeth, gan ryfeddu at y llanast a'r dail palmwydd a'r dillad a adawyd ar ôl gan y dyrfa. Darllenwyd yr hanes hefyd o'r Beibl, cyflwynwyd cerddi a gweddïau, a chafwyd sawl cyfle i'r gynulleidfa oll gael rhan weithredol yn yr oedfa drwy gyd-adrodd ymatebion y gweddïau, yn ogystal â'r Gyffes Fer o'r Ffydd, a thrwy ganu'r emynau. Rhannwyd croesau o ddail palmwydd hefyd i bawb oedd yn bresennol, a diolchwyd i bawb am eu cefnogaeth a'u parodrwydd i gymryd rhan gan Miss Gwenno Pritchard oedd yng ngofal y cyhoeddiadau. Bu'r oedfa hefyd yn gyfle i roi cynnig ar arbrawf newydd y gornel liwio fel ffordd o gadw'r plant lleiaf yn ddiddig, ac fe weithiodd yn dda.

Rhai o'r plant a gymerodd ran yn Oedfa Sul y Blodau

Y gornel liwio

Y GYMDEITHAS

JOHN WYNN JONES

Cynhaliwyd cyfarfod mis Chwefror yng nghwmni y digrifwr Dilwyn Morgan. Fei cyflwynwyd gan lywydd y noson, John Wynn Jones, fel un o'r Bala ond oedd â'i wreiddiau yn Garn Fadryn yn Llŷn. Ef yw Cynghorydd Sir ardal y Bala ac eleni ef yw Cadeirydd Cyngor Sir Gwynedd. Dywedwyd mai gwaith digon anodd yn yr hinsawdd economaidd bresennol yw'r swydd honno ond bod Dilwyn Morgan yn ei gwneud gydag urddas.

Y mae wrth gwrs yn adnabyddus fel arweinydd nosweithiau llawen ac awdur ond hefyd yn rhannu'r gwaith o gyflwyno rhaglen *Codi Hwyliau* ar S4C hefo John Pierce Jones pan fwynhawn holl droeon trwstan y ddau ffrind yma.

Dywedodd ar ddechrau ei gyflwyniad na fyddem yn cofio dim am yr hyn a dderbyniem yn ystod y noson pe gofynnid i ni drannoeth Yr unig beth cofiadwy oedd bod pawb wedi chwerthin hyd grio

am ei storïau. Cawsom sawl stori am ei fagwraeth yn Garn Fadryn a'r pethau oedd yn dylanwadu ar fachgen ifanc yn y cyfnod hwnnw. Clywsom am ei gyfnod yn Ysgol Llaniestyn a'r nifer o gymeriadau oedd yn cydoesi ag o, yn athrawon, gweithwyr arlwyo bwyd a phlant y fro. Soniodd am ei yrfa fel morwr yn hwylio o amgylch y byd yn y llynges fasnachol. Rhannodd hefo ni sawl hanes a oedd efallai wedi eu hymestyn o'r gwirionedd ond toedd neb i'w weld yn malio.

Ar ddiwedd y noson roedd pawb yn gwbwl argyhoeddedig bod Dilwyn wedi cael bywyd llawn hyd yma a da o beth oedd ei fod yn mynd o amgylch i ddifyrru pobol trwy adrodd am ei droeon trwstan. Tra yr oeddem yn mwynhau paned a bisgedan wedi eu paratoi gan Margaret Tilsley, Eleri Jones a Meira Jones y brif sgwrs oedd am ddawn dweud ein gŵr gwadd a'r ffordd y gwibiodd awr a hanner o amser ac fel y cawsom eli i'r galon drwy chwerthin iach. Mawr ddiolch i Dilwyn Morgan.

LLEFYDD ARBENNIG

GWENNO PRITCHARD

Nos Fercher, Mawrth 2il, cafodd Cylch y Chwiorydd noson ddiddorol yng nghwmni dwy o'r merched ieuengach. Testun y sgyrsiau ar y noson oedd Lle/Ardal, a'r ddwy oedd yn cymryd rhan oedd Manon Davies, a Menna Baines, a chawsom glywed am leoedd oedd wedi gwneud argraff arnynt yn ystod eu bywyd.

Hanes Manon a gawsom yn gyntaf. Bu Manon yn byw yng Nghaerdydd am y deng mlynedd cyntaf o'i hoes, lle roedd ei thad yn ddarlithydd Almaeneg yn y Brifysgol. Roedd ei thad yn hanu o Abertawe, a'i mam o Sir Feirionydd. Mynychai Manon Ysgol Gymraeg Bryn Tâf, lle roedd chwe chant o ddisgyblion. Roedd yn dipyn o newid byd i Manon felly pan symudodd y teulu i Abermad, ger Llanilar, yng Ngheredigion. Pentref gwledig gyda llawer llai o ddisgyblion yn yr ysgol!

Ymhen amser aeth Manon i'r coleg ym Mangor, lle bu'n astudio Rwsieg. Tra roedd hi yn y coleg, fe dreuliodd dri mis yn byw yn Foronegh, yn ne Rwsia, profiad a wnaeth gryn argraff arni. Ymddangosai pobl yr ardal yn bobl gaeedig iawn ar y dechrau, ond yr oedd yn syndod fel yr oeddynt yn ymateb i gyfeillgarwch. Bu Manon mewn gwasanaethau yn Eglwys Uniongred Rwsia. Roedd y gwasanaethau yn wahanol iawn i'n rhai ni, gyda llawer iawn o fynd a dod ynddynt. Tra roedd Manon yn Rwsia yn 1989, fe ddaeth Wal Berlin i lawr, gyda'r *roubles* yn disgyn mewn gwerth. Daeth Manon â *samovar*, a lliain o'r Ukraine i ddangos i ni. Ar ôl dod yn ôl i'r coleg, cafodd Manon ei hadnabod fel Manon Rwsia!

Ar ôl gorffen ei chwrs yn y coleg, aeth Manon i'r Almaen fel *au pair*. Roedd yn byw y tu allan i Frankfurt, mewn ardal gyfoethog iawn, gyda'r teulu yn ofalus iawn o'r *au pairs* i gyd.

Erbyn hyn mae Manon yn byw ym Mangor

unwaith eto, gyda'r teulu, Meirion, a Guto, yn ardal Siliwen. Mae yn athrawes Almaeneg yn Ysgol David Hughes, Porthaethwy, ond pan nad yw yn gweithio, mae wrth ei bodd yn garddio, ac eistedd yn yr ardd yn gynnar yn y bore.

Cafodd Menna ei geni ym Mangor, yn un o dri o blant. Symudodd y teulu i Lanerfyl ym Mhowys pan gafodd ei thad swydd gyda Mudiad Addysg y Gweithwyr, fel athro, a byth ers hynny mae'r ardal yma wedi bod yn agos iawn at ei chalon.

Y ddwy siaradwraig – Menna Baines (chwith) a Manon Davies (dde) ac yn y canol llywydd y cyfarfod sef Astra Thomas

Roedd Menna a'r teulu yn byw mewn byngalo o'r enw Bryn Llys, ar dir fferm Llysun. Dyma un o'r ffermydd y seiliwyd fferm Lleifior arni yng *Cysgod y Cryman*. Roedd Dyffryn Banw yn ddyffryn amaethyddol, gyda nifer o ffermydd mawr, 300 neu 400 can cyfer. Er fod Dyffryn Banw yn agos at y ffin, roedd yn ardal Gymreig iawn, gyda Canu'r Plygain yn boblogaidd. Pan ddeuai teulu di-Gymraeg i'r ardal, fydden nhw fawr o dro cyn dysgu Cymraeg. Mae'r gantores Sian James wedi dod â'r pentref i amlygrwydd. Y dref farchnad agosaf oedd y Trallwng, gyda'r Drenewydd, Croesoswallt, ac Amwythig yn drefi cyfagos. Ysgol eglwys oedd ysgol y pentref, ac fe fyddai'r plant yn mynd i wasanaethau yn yr eglwys yn achlysurol. 32 o blant oedd yn yr ysgol gyda dwy athrawes, ac yn naturiol roedd pwyslais mawr ar fyd natur yno. Ar ôl gorffen yn ysgol y pentref, symudodd Menna i Ysgol Uwchradd Llanfair Caereinion. Roedd tipyn mwy o Saesneg i'w glywed yma, ond Cymry di-Gymraeg oedd y rhan fwyaf o'r disgyblion yn hytrach na Saeson.

Bu Menna a'r teulu yn byw yn Llanerfyl am ddeng mlynedd, ond yna symudodd y teulu i Benygroes yn Arfon, pan gafodd ei thad swydd gyda Mudiad Addysg y Gweithwyr, ym Môn ac Arfon. Y gwahaniaeth mwyaf ddaru Menna sylwi arno rhwng y ddau le oedd fod pawb yn fwy prydlon ym Mhenygroes, tra roedd pob dim yn fwy hamddenol yn Llanerfyl!

Ar ôl gorffen yn yr ysgol, aeth Menna i'r coleg ym Mangor, lle graddiodd gyda M.Phil. Mae wedi gweithio i *Golwg*, yna i *Barn*, ac wedi cyhoeddi *Gwyddoniadur Cymru*. Ar ôl bod yn byw mewn saith lle, ac undeg saith o dai yng Nghymru, mae Menna yn ôl yn byw ym Mangor ers 1998, gyda'r teulu, Peredur, Tomos a Meilyr, yn 200 Ffordd Penrhos, a dyma lle mae hi wedi byw hiraf!

“PRYD MAE’R PASG”?

SIONED JONES

Pedair ffrind a fi yn cael cinio bach yn Pontio tua dechrau Mawrth, a’r sgwrs yn troi at y Pasg a’r ffaith ei fod yn gynnar eleni.

“Pam ma’ Pasg yn newid bob tro?” Y pump ohonom yn edrych ar ein gilydd yn ddi-glem. “Sioned?”

Ers bod yn aelod o dîm cwis buddugol Merched y Wawr Penrhosgarnedd, maen nhw’n meddwl mai fi yw Ffynhonnell Pob Gwybodaeth...

“Wel...sai’n gwbod... rwbeth i neud â’r lleuad?...”

“Ia, rwbath i neud â’r lleuad” cytunodd pawb, “Mm, ma’r *tagine* ma’n neis...” A dyna ddiwedd y sgwrs. Ond meddwl wedyn ei bod yn rhyfedd iawn nad oedd yr un ohonom, a fagwyd yn yr Ysgol Sul, yn gwybod beth yw cefndir dyddiad yr ŵyl bwysig hon. Felly dyma fynd ati i wneud ymchwil ... Mae’r ateb yn gymhleth...

Yn gryno, mae Sul y Pasg yn digwydd ar y dydd Sul cyntaf ar ôl y lleuad lawn gyntaf sy’n dilyn cyhydnos y gwanwyn. Fawr callach? Na finne chwaith....

Wel cyhydnos y gwanwyn *(Spring Equinox)* yw’r dydd pan mae’r un faint o oriau yn y dydd â’r nos. Yn dilyn y lleuad lawn gyntaf ar ôl y diwrnod hwn, gellir dathlu Sul y Pasg. Gall y Pasg ddigwydd felly cyn gynhared â Mawrth y 22ain neu gyn hwyred ag Ebrill y 25ain.
Ond pam? Beth sydd a wnelo’r haul a’r lloer a’r sêr i gyd â Chroesholiad ac Atgyfodiad yr Iesu?

Wel, mae dathlu’r Pasg yn seiliedig ar y calendr Iddewig ac mae calendr y Gwyliau Iddewig yn seiliedig ar gylchredau’r haul a’r lloer, pob dydd Gŵyl yn symud a’r dyddiau’n newid o flwyddyn i flwyddyn.

Roedd y credinwyr cyntaf yn dymuno i’r Pasg gyd-fynd â Gŵyl y Bara Croyw. Digwyddodd marw, claddu ac atgyfodi’r Iesu ar ôl Gŵyl y Bara Croyw felly roedd y dilynwyr am i’r Pasg gael ei ddathlu bob amser yn syth ar ôl yr Ŵyl hon.

Mae Gŵyl y Bara Croyw yn ŵyl bwysig iawn i’r Iddewon gan ei bod yn coffáu gwaredigaeth yr Iddewon o’r Aifft. Yr enw Hebraeg arni yw PESACH, gallwch weld felly o ble y tarddodd y gair Pasg. (ond daw’r gair Saesneg, Easter, o draddodiad Paganaidd arall – fel y dywedais i, mae’n gymhleth). Y traddodiad Iddewig oedd aberthu oen ar Ŵyl y Bara Croyw. Digwyddodd y Croesholiad adeg yr ŵyl hon ac roedd Cristnogion yn ystyried marwolaeth Crist fel aberthu oen Duw. Fel y dywedir yn 1 Corinthiaid 5, “Crist, ein Pasg, a aberthwyd drosom ni. Felly gadewch i ni gadw’r Ŵyl.”

Dilyn gŵyl Iddewig oedd wedi'i sefydlu'n barod felly wnaeth gŵyl y Pasg. Cymhlethdod arall - nid y tabl astronomaidd cywir sydd dan sylw. Ganrifoedd yn ôl, sefydlodd yr Eglwys Orllewinol ei thabl ei hun oedd yn rhagweld dyddiadau'r lleuad lawn a'r rhain sy'n pennu'r dyddiau gŵyl yng nghalendr yr eglwys. Roedd hyn yn seiliedig ar y calendr Gregoraidd...

Ac i wneud pethau'n fwy cymhleth fyth, mae eglwysi Uniongred y dwyrain yn dathlu'r Pasg yn ôl calendr Iŵl; rhwng dechrau Ebrill a dechrau Mai, o leiaf wythnos yn hwyrach felly.

Ond yn yr oes fodern hon, onid oes dadl dros anwybyddu'r lleuad a'r haul a gwneud y Pasg yn sefydlog. Bu ymgyrchu am hyn ers blynyddoedd maith, o du'r Eglwys ac o'r byd y tu allan. Pasiwyd Deddf yn y Senedd yn 1928 yn caniatáu sefydlogi'r Pasg - ond byddai'n rhaid cael cytundeb yr Eglwysi i gyd, yn cynnwys yr Eglwys Ddwyreiniol, cyn y gellid gwneud hynny.

Mae byd addysg a byd busnes yn gyffredinol yn dymuno cael Pasg ar yr un diwrnod bob blwyddyn. Mae'r Eglwys yn Lloegr yn credu'n gryf dros gael Pasg sefydlog. Yn wir, dywedodd Archesgob Caergaint, Justin Welby, mai un o'r pethau mwyaf yr hoffai ef ei gyflawni yn ystod ei archesgobaeth fyddai sefydlogi'r Pasg. Braidd yn seciwlar oedd ei ddadleuon hyd y gwelwn i, ac mae'n ymddangos yn uchelgais digon bydol i Archesgob Caergaint ei choleddu.

Beth yw'r dadleuon dros ac yn erbyn? Gallaf weld y byddai cael Sul y Pasg ar un diwrnod penodol yn rhoi mwy o statws i'r ŵyl. Gallai ddod â'r ystyr yn ôl i'r dathlu. Wedi dweud hynny, mae dydd Nadolig yr un bob blwyddyn ond nid yw hynny'n atgyfnerthu pwyslais Cristnogol yr ŵyl o gwbl.

O'm rhan i, dwi'n hoffi'r ffaith fod Pasg yn newid bob blwyddyn... Mae anwadalwch calendraidd yn rhoi mwy o ddiddordeb i'n bywyd. Meddyliwch pe na bai neb yn trafod "Pryd mae Pasg `leni?" Byddai fel byw mewn gwlad lle mae'r tywydd yr un peth am chwe mis ac felly'n peidio â bod yn destun sgwrs. Byddai fel cael yr Eisteddfod Genedlaethol ar safle sefydlog bob blwyddyn a neb yn gofyn "Ble ma'r Steddfod blwyddyn nesa `te?" Ac ni fyddai'r athrawon, druain, yn gallu cwyno "O mae hwn yn hanner tymor HIR!" Byddem yn gallu cofio am wyliau Pasg pan mae'r tywydd fel canol gaea, a phenwythnosau Pasg hirfelyn tesog. Gobeithio y cawsoch chi i gyd Basg dedwydd eleni ymhell yn ôl erbyn hyn ar ddiwedd mis Mawrth.

~

Rhan o sgwrs a glywais rhwng fy nith 15 oed a'i mam adeg gwyliau'r Pasg:

"Ond ma' loads o amser i adolygu Mami - dim ond mis Mawrth yw hi - ma Pasg yn GYNNAR 'leni!"

CASGLIAD DORCAS

Casgliad sy'n cael ei wneud pan fydd pobl ar y ffordd allan o'r capel ar ôl gwasanaeth Cymun yw Casgliad Dorcas. Mae'r arian yn mynd at wahanol achosion da. Ar hyn o bryd rydym yn casglu tuag at y Samariaid.

‘JYNGL’ CALAIS

MEDDYLIAU GWIRFODDOLWR

Ar dudalen gefn y rhifyn hwn o Ichthus fe welwch luniau o’r ‘Jyngl’, fel y gelwir y gwersyll ffoaduriaid yn Calais.

Maent wedi’u tynnu gan Paul Smith, a fu’n byw ym Mhenrhosgarnedd am flynyddoedd cyn symud i Landegfan. Treuliodd Paul, a oedd yn arfer gweithio yn y Ganolfan Astudiaethau Tir Cras, Prifysgol Bangor, gyfnod yn y Jyngl yn ddiweddar yn gwirfoddoli ar ran elusen Care4Calais. Ymhlith y nifer fawr o ffoaduriaid a gyfarfu yno roedd nifer fawr yn dod o’r gwledydd y bu Paul ynddynt yn y gorffennol, yn gweithio ar brosiectau dyngarol ar ran y Ganolfan Astudiaethau Tir Cras – gwledydd fel Affganistan, Swdan a Phacistan, ac roedd y ffaith fod ganddo grap ar ieithoedd a diwylliant y gwledydd hynny’n help mawr iddo yn Calais. Tra oedd yno bu’n rhoi lluniau o’r gwersyll ar ei dudalen Facebook, ynghyd ag adroddiadau ar y sefyllfa yno a gwaith Care4Calais.

Paul Smith

Cafodd Ichthus ei ganiatâd i gyhoeddi rhai o’r lluniau ynghyd â’r cyfieithiad isod o’i sylwadau wedi iddo ddychwelyd adref o Ffrainc ddiwedd Mawrth.

“Cyrhaeddais yn ôl o Calais bnawn ddoe. Roeddwn yn eitha trist i adael. Dwi wedi blino, yn gorfforol ac yn feddyliol. Dwi wedi clywed cymaint o straeon dirdynnol. Roedd gan y rhan fwyaf o bobl wnes i eu cyfarfod resymau go iawn dros geisio lloches ... Roedd gan bron y cyfan ohonynt deulu neu ffrindiau agos yn y DU.

Roeddent i gyd yn awyddus i weithio ac i gyfrannu at economi y DU. Roedd y rhan fwyaf wedi cael addysg dda ac yn cynnwys cyfrifyddion, peirianwyr, syrfewyr, athrawon ac ati ...

Er bod dosbarthu bwyd a diod i’r bobl hyn yn rhywbeth sydd ei wir angen a’i fod yn cael ei werthfawrogi, yr un pryd mae pawb yn cydnabod mai dim ond lleddfu symtomau’r broblem y mae hyn yn ei wneud. Mae’r ateb i’r argyfwng yn nwylo gwleidyddion .... ond mae’n ymddangos mai ychydig iawn o wledydd y gorllewin sydd â’r ewyllys wleidyddol ... i fynd i’r afael â’r problemau. Dros yr wythnosau nesaf dwi’n gobeithio y daw fy meddwl yn llawer cliriach ynglŷn â pha newidiadau deddfwriaethol sydd eu hangen.”

Y GROGLITH A'R PASG YM MANGOR

Dydd Gwener y Groglith

'Wrth iddyn nhw arwain Iesu i ffwrdd… roedd tyrfa fawr o bobl yn ei ddilyn… Roedd y bobl yno'n gwylio'r cwbl…' (Luc 23)… rhai tu allan i *Varsity*, eraill wrth y *Principality*, a llawer yn y farchnad.

Pobl yn edrych a cheisio dyfalu beth oedd yn digwydd, a phwy oedd yn dod. Rhai yn oedi, y mwyafrif yn prysuro 'mlaen gyda'u neges. Y dyrfa o gerddwyr, yn ymdawelu i fyfyrio ar y tywyllwch a ddaeth cyn y llawenydd, y marw cyn yr atgyfodi – a'r angen mawr yn ein byd cythryblus am obaith y Pasg.

Bore Sul y Pasg

'Yn gynnar iawn y bore Sul aeth y gwragedd at y bedd…' (Luc 24:1)

A'r clociau wedi mynd yn eu blaenau hefyd, mi roedd hi'n gynnar IAWN ar fore Sul y Pasg wrth i tua deg ar hugain ohonom gasglu ar ben *Roman Camp* (llun y clawr); o gwmpas fflamau'r tân yn y bore bach, i ganu a myfyrio ar neges y Pasg – y ddinas a'r Fenai yn dawel oddi isod, a'r adar yn canu. Ar hynny, dyma'r cymylau'n gwahanu, a phelydrau haul y bore yn lledu dros Hirael a dinas Bangor – wow!

I lawr o'r bryn wedyn i ganol bywyd go iawn – a phrysurdeb boreol Bangor Uchaf wrth inni ailymgynnull i gynhesu yn festri Penrallt, efo *croissants*, teisennau croes ac uwd poeth, ac ŵy Pasg ar bob plât, cyn prysuro adre'n ôl i ddeffro gweddill y teulu 'i ddeud beth oedd wedi digwydd' ac i rannu mwy o siocled Pasg.

GEIRIAU'R IESU

G. P. J.

Mewn oedfa drawiadol ar fore Sul yn ddiweddar canolbwyntiwyd ar Eiriau Iesu Grist. Nid oeddwn i erioed wedi clywed am *Y Testament Llythyren Goch* lle gwelir, mae'n debyg, pob gair o eiddo'r Iesu mewn print coch. Yn y gwasanaeth sylwyd ar rai o ddywediadau'r Iesu, ei ymatebion i gwestiynau, ei gyfarwyddiadau a'i orchymyn, ei ddamhegion a'r Bregeth ar y Mynydd.

Gwn i ffurf y gwasanaeth a'r dyfyniadau a glywyd greu argraff ar lawer yn y gynulleidfa. Yr hyn wnes i yn ystod y dyddiau dilynol oedd darllen trwy'r Efengylau a nodi rhai o'r **Geiriau**. Tybed a wnaeth eraill ohonoch yr un peth? Ar gyfer y rhifyn hwn o Ichthus cyhoeddwn ddetholiad byr iawn o'r detholiad. Cofiwch mai dewis personol iawn a geir yma. Beth am i chwi, ddarllenwyr, anfon rhai o'ch hoff **Eiriau'r Iesu** chwi atom ar gyfer ein rhiifyn nesaf?

Yr wyf yn rhoi i chwi orchymyn newydd: carwch eich gilydd. Fel y cerais i chwi, felly yr ydych chwithau i garu'ch gilydd. Os bydd gennych gariad tuag at eich gilydd, wrth hynny bydd pawb yn gwybod mai disgyblion i mi ydych. Ioan 13. 34-5

Y mae'r dyn da yn dwyn daioni o drysor daionus ei galon, a'r dyn drwg yn dwyn drygioni o'i ddrygioni; oherwydd yn ôl yr hyn sy'n llenwi ei galon y mae ei enau yn llefaru. Luc 6. 45

Yn y cyfamser yr oedd y dyrfa wedi ymgynnull yn ei miloedd, nes eu bod yn sathru ei gilydd dan draed. Dechreuodd ef ddweud wrth ei ddisgyblion yn gyntaf, ***"Gochelwch rhag surdoes y Phariseaid, hynny yw, eu rhagrith. Nid oes dim wedi ei guddio nas datguddir, na dim yn guddiedig na cheir ei wybod. Am hyn, popeth y buoch yn ei ddweud yn y tywyllwch, fe'i clywir yng ngolau dydd; a'r hyn y buoch yn ei sibrwd yn y glust mewn ystafelloedd o'r neilltu, fe'i cyhoeddir ar bennau'r tai."*** Luc 12. 1-3

Gofalwch ymgadw rhag trachwant o bob math, oherwydd er cymaint ei gyfoeth, nid yw bywyd neb yn dibynnu ar ei feddiannau. Luc 12.15

Cymerwch ofal, rhag i'ch meddyliau gael eu pylu gan ddiota a meddwi a gofalon bydol, ac i'r dydd hwnnw ddod arnoch yn ddisymwth fel magl; oherwydd fe ddaw ar bawb sy'n trigo ar wyneb y ddaear gyfan. Byddwch effro bob amser, gan ddeisyf am nerth i ddianc rhag yr holl bethau hyn sydd ar ddigwydd, ac i sefyll yng ngwydd Mab y Dyn. Luc 21. 34

A ydych chwithau hefyd yr un mor ddiddeall? Oni welwch na all dim sy'n mynd i mewn i ddyn o'r tu allan ei halogi, oherwydd nid yw'n mynd i'w galon ond i'w gylla, ac yna y mae'n mynd allan i'r geudy? . . . Yr hyn sy'n dod allan o ddyn, dyna sy'n halogi dyn. Oherwydd o'r tu mewn, o galon dynion, y daw allan

gynllunio drygionus, puteinio, lladrata, llofruddio, godinebu, trachwantu, anfadwaith, twyll, anlladrwydd, cenfigen, cabledd, balchder, ynfydrwydd; o'r tu mewn y mae'r holl ddrygau hyn yn dod ac yn halogi dyn. Marc 7. 18

Cymerwch ofal i beidio â chyflawni eich dyletswyddau crefyddol o flaen dynion er mwyn cael eich gweld ganddynt; os gwnewch, nid oes gwobr i chwi gan eich Tad, yr hwn sydd yn y nefoedd. Mathew 6. 1

A phan fyddwch yn gweddïo, peidiwch â bod fel y rhagrithwyr; oherwydd y maent hwy'n hoffi gweddïo ar eu sefyll yn y synagogau ac ar gonglau'r heolydd, er mwyn cael eu gweld gan ddynion. . . . Pan fyddi di'n gweddïo, dos i mewn i'th ystafell, ac wedi cau dy ddrws gweddïa ar dy Dad sydd yn y dirgel, a bydd dy Dad sydd yn gweld yn y dirgel yn dy wobrwyo. Ac wrth weddïo, peidiwch â phentyrru geiriau fel y mae'r paganiaid yn gwneud; y maent hwy'n tybied y caent eu gwrando am eu haml eiriau. Mathew 6.5

Peidiwch â chasglu i chwi drysorau ar y ddaear, lle mae gwyfyn a rhwd yn difa, a lle mae lladron yn torri trwodd ac yn lladrata. Casglwch ichwi drysorau yn y nef, lle nad yw gwyfyn na rhwd yn difa, a lle nad yw lladron yn torri trwodd nac yn lladrata. Oherwydd lle mae dy drysor, yno hefyd y bydd dy galon. Mathew 6. 19

Gochelwch rhag gau-broffwydi, sy'n dod atoch yng ngwisg defaid, ond sydd o'u mewn yn fleiddiaid rheibus. Wrth eu ffrwythau yr adnabyddwch hwy. Ai oddi ar ddrain y mae casglu grawnwin neu oddi ar ysgall ffigys? Felly y mae coeden dda yn dwyn ffrwyth da, a choeden wael yn dwyn ffrwyth drwg. Ni all coeden dda ddwyn ffrwyth drwg, na choeden wael ffrwyth da. Mathew 7.15

Felly, pan fyddi'n rhoi elusen, paid â chanu utgorn o'th flaen, fel y mae'r rhagrithwyr yn gwneud yn y synagogau ac yn yr heolydd, er mwyn cael eu canmol gan ddynion. Mathew 6.2

(Y diafol yn temtio'r Iesu) Yna atebodd Iesu ef, ***"Y mae'r Ysgrythur yn dweud: 'Paid â gosod yr Arglwydd dy Dduw ar ei brawf.'*** Luc 4. 12

Ioan 15. 12 Dyma fy ngorchymyn i: carwch eich gilydd fel y cerais i chwi. Nid oes gan neb gariad mwy na hyn, sef bod dyn yn rhoi ei einioes dros ei gyfeillion.

Luc 6. 27 Ond wrthych chwi sy'n gwrando 'rwy'n dweud: Carwch eich gelynion, gwnewch ddaioni i'r rhai sy'n eich casáu, bendithiwch y rhai sy'n eich melltithio, gweddïwch dros y rhai sy'n eich camdrin.

Luc 6. 36 Byddwch yn drugarog fel y mae eich Tad yn drugarog.

Luc 7 37 "Peidiwch â barnu, ac ni chewch eich barnu. Peidiwch â chondemnio, ac ni chewch eich condemnio. Maddeuwch, ac fe faddeuir i chwi. Rhowch, ac fe roir i chwi; rhoir yn eich côl fesur da, wedi ei wasgu i lawr a'i ysgwyd ynghyd nes gorlifo; oherwydd â'r mesur y rhowch y rhoir i chwi yn ôl."

7.42 Ragrithiwr, yn gyntaf tyn y trawst allan o'th lygad dy hun, ac yna fe weli yn ddigon eglur i dynnu'r brycheuyn sydd yn llygad dy frawd.

Mathew 4.4 Nid ar fara yn unig y bydd dyn fyw, ond ar bob gair sy'n dod allan o enau Duw.

Mathew 5 Y Bregeth ar y Mynydd – Y Gwynfydau; Halen a Goleuni

Mathew 7. 1- Peidiwch â barnu, rhag ichwi gael eich barnu; oherwydd fel y byddwch chwi'n barnu y cewch chwithau eich barnu, ac â'r mesur a rowch y rhoir i chwithau. Pam yr wyt yn edrych ar y brycheuyn sydd yn llygad dy frawd, a thithau heb sylwi ar y trawst sydd yn dy lygad dy hun? Neu sut y dywedi wrth dy frawd, 'Gad imi dynnu allan y brycheuyn o'th lygad di', a dyna drawst yn dy lygad dy hun? Ragrithiwr, yn gyntaf tyn y trawst allan o'th lygad dy hun, ac yna fe weli yn ddigon eglur i dynnu'r brycheuyn o lygad dy frawd. Peidiwch â rhoi'r hyn sy'n sanctaid di'r cwn, na thaflu eich perlau o flaen y moch, rhag iddynt eu sathru dan eu traed, a throi arnoch a'ch rhwygo.

COFIO GWYN

Flwyddyn yn ôl y cyhoeddwyd y gyfrol Llyfr Gwyn gan Barddas, cyfrol o lên-gofiant Gwyn Thomas, yr athrylith o fardd a'r cawr o ysgolhaig, y mae ei farwolaeth yn golygu colled enfawr i'n diwylliant. Ar dudalen 28 o'r gyfrol y mae Gwyn yn datgan pa mor bwysig fu darllen Y Beibl iddo yn ei blentyndodd a thrwy gydol ei oes. Yn deyrnged iddo cawsom ganiatâd i ddyfynnu ei eiriau yma.



Er fy mod i wedi bod â rhyw ran fechan yng ngolygiad yr ail fersiwn o'r 'Cyfieithiad Newydd' o'r Beibl a'm bod i, wrth reswm, wedi ei ddarllen drwodd, anaml y byddaf yn darllen hwnnw, ar fy mhen fy hun nac ar goedd. Y mae geiriau'r Hen Gyfieithiad, geiriau a fwriadwyd i'w llefaru, a geiriau a ddewiswyd gan wyr o athrylith a oedd yn gyfarwydd nid yn unig â thraddodiad ein beirdd ond hefyd â'r ddisgyblaeth oedd yn rhan o'u hyfforddiant nhw mewn Rhethreg, wedi mynd i fêr fy esgyrn i. Dydi hynny ddim yn rhyfedd, gan fy mod wedi ei ddarllen o'n selog, fel y dywedais, ac wedi gorfod dysgu talpiau ohono yn yr Ysgol Sul. Un o'r pethau pwysig, pwysig sydd yna yn y cyfieithiad hwnnw ydi'r eirfa sydd ynddo, a rhythm y rhyddiaith, rhythm sydd yn rhoi haen arbennig o deimlad ac ystyr i'r hyn a ddywedir. Yn y rhythm hwn y mae fy nirnadaeth a'm clywedigaeth i o rythm wedi eu meithrin. Dylwn ychwanegu hefyd fy mod i, fel eraill o'm cenhedlaeth, yn dra chyfarwydd ag emynau fyrdd, a bod llawer ohonyn hwythau hefyd ar fy nghof.

Y mae amryw adleisiau o'r 'hen' gyfieithiad o'r Beibl yn fy stwff i, ac y mae rhywfaint o'r eironi sydd yn rhai o'm cerddi'n dibynnu ar adleisiau o'r fath : bellach y mae hyn'na i gyd wedi mynd 'i lawr y Swani', fel y dywedir, am nad oes braidd neb yn darllen yr hen gyfieithiad.

GWEDDÏO GYDA'R DYCHYMYG

MALDWYN THOMAS

Mae yna gannoedd o lyfrau yn cael eu sgwennu ar weddïo yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mi hoffwn gynnig llyfr campus iawn i chi ar y testun mawr yma, sef *God of Surprises* gan Gerald W. Hughes. Pabydd, offeiriad a Ieseuwr ydi o, ac yn fy marn fach i y mae ganddo fo'r ddawn i sgwennu am brofiadau crefyddol yn ddeniadol ac yn glir. Mae o'n gallu agor llwybr drwy'r jyngl ar gyfer rhai fel fi, sydd yn aml ar goll, yn chwilio am arweiniad ac yn gymysglyd yn y cyfan.

JAC-YN-Y-BOCS

Un broblem i mi wrth weddïo ydi bod fy meddwl yn crwydro'n ofnadwy. Mae dweud fy mhader yn y nos yn gallu bod yn broblemus. Mi ddaw yna un gair, neu un darlun bach i fy meddwl, a dyna fi wedyn, ar goll yn llwyr, a channoedd o luniau yn dod i mewn blith drafflith. Cau un llun yn y bocs, ond cyn i mi droi rownd, mae yna lun arall wedi dwad, a chaead y bocs yn mynnu byrstio ar agor. Ac felly y mae hi. Sawl Jac-yn-y-bocs, a finnau'n chwys doman dail yn trïo rhoi'r caead ar bob un. Mi ydw i wedi bod yn gweddîo drwy'r nos yn amal, yn trïo cael trefn ar fy meddyliau, ar fy ngweddïau. Mae hyn yn digwydd yn ystod yr oedfa yn y capel hefyd, ond bod yna orfodaeth arnaf i fod yn rhan o'r gwasanaeth yn y fan honno. Ond yr un ydi'r broblem. Y meddwl gwibiog.

Mae Gerald Hughes yn cynnig llwybr o'r jyngl. Defnyddio'r dychymyg ydi ei lwybr o. Mae gan bawb ohonom ni ddychymyg. Mae gweddïo efo'r dychymyg yn help mawr i rai ohonom ni sydd yn dioddef o gyflwr obsesiynol y meddwl gwibiog.

Mi ydw i yn dewis partner o'r Beibl i weddïo efo fo. Wedyn mi ydw i'n siarad efo'r partner - a dyna ydi'r weddi. Yn Ioan 21, 1-13, mae'r hanes ar gael am rai o'r disgyblion yn pysgota drwy'r nos ym môr Galilea. Rydw i'n defnyddio fy nychymyg - a gweld yr olygfa yn gynnar yn y bore a'r cwch yn wag, a'r tonnau'n taro yn erbyn y cwch gwag; a'r digyblion yn siomedig. A'r Iesu yno ac yn dweud wrthyn nhw am daflu'r rhwyd i'r ochr dde i'r cwch, a'r disgyblion yn cael helfa wych - 153 o bysgod breision. Wedyn y mae Iesu yn gwahodd pawb i'r barbeciw ar y traeth - y brecwast cyntaf ar ôl y swper olaf. Mae Gerald Hughes yn fy annog i siarad efo'r disgyblion ac i siarad efo'r Iesu. Gweddïo efo'r dychymyg ydi hyn.

Mae rhywun yn swil wrth wneud hyn ambell dro, ond er y swildod y mae hi'n ffordd ardderchog o roi'r meddwl ar y weddi.

COFIWCH AM DUDALENNAU BEREA AR Y GWEFANNAU!

www.gofalaethbangor.org / www.henaduriaetharfon.org

SALM AC EMYN

	EMYN	SALM
EBRILL 30	681 Meilyr Lynch	121 Tomos Lynch
MAI 8	393 Bedwyr Williams	24 Llio Eurgain
MAI 15	387 Fflur Edwards	150 Catrin Edwards
MAI 22	Moliant y Plant, Jerusalem, Bethesda	
MEHEFIN 12	397 Cai Aron	1 Ela Vaughan
MEHEFIN 19	399 Danial Jones	6 Alys McCann
MEHEFIN 26	373 Siôn Steffan	23 Owain Edwards
GORFFENNAF 3	Gŵyl Pen Tymor	
GORFFENNAF 10	402 Eleri Roberts	93 Iolo Evans

Gwyliau ysgol Mai 29, 5 Mehefin, Suliau Gorffennaf/Awst o 17 Gorffennaf hyd 28 Awst

Diolch yn fawr am eich cyfraniad.
Os bydd plentyn neu deulu'n newid Sul gyda rhywun arall,
hysbyser Kathy - kathysion@btinternet.com neu 364957. Diolch.

CORNEL CODI GWÊN

GLYN LLOYD JONES

Yn ystod pregeth a oedd yn llusgo braidd
(wedi rhyw bum munud!), crwydrodd llygaid
plentyn bychan oddi wrth y pregethwr at y cloc ar y wal. Yna,
aeth i'w boced, gafael yn ei gasgliad a throi at ei dad gan ofyn:

" Dad, ti'n meddwl os rown ni'r arian 'ma yn y platiau casglu
rwan y b'asa fo'n yn gadael i ni fynd adra'n syth?"

Mae'n braf medru byw mewn gobaith weithia!

Y DIGWYDDIADUR

MAI

Mawrth 10fed	CYNHADLEDD UNDEB ATHROFA'R BALA. Seilo, Eglwys Unedig Llandudno A oes Heddwch? sgwrs a thrafodaeth rhwng Mabon ap Gwynfor a Marcus Robinson 10 y bore - Defosiwn. 10.15 Sgwrs 1 - Coffi, trafodaeth 12.30 Cinio. 1.30 Sgwrs 2 a thrafodaeth yn dilyn Croes cynnes i bawb
Gwener 13eg, 6-8yh	TE PARTI MARIE CURIE yn Pringles, Llanfairpwll Tocynnau: £8 (£4 o bob tocyn yn mynd i Marie Curie) Adloniant gan 'Friends in Harmony' Ffoniwch 01248 440114 i holi am docynnau
15fed - 21ain	WYTHNOS CYMORTH CRISTNOGOL
Llun 16eg, 12.30	GWASANAETH A CHINIO CYNNIL yn Berea Newydd
Gwener 20fed, 9.30 - 4yp	CASGLIAD STRYD BANGOR
Gwener 20fed, 10.30 - 12yp	BORE COFFI yn Nhy'r Crynwyr
Sadwrn 21ain	NOSON GWIS yn Eglwys Bedyddwyr Penrallt

MEHEFIN

17eg - 19fed	PENWYTHNOS Y PLANT - Coleg y Bala
Mercher 22ain	YMWELIAD â 'Byd Mary Jones'. (Gweler isod)

BYD MARY JONES

Dyma gyfle ardderchog i holl aelodau Berea Newydd ymweld â Chanolfan Byd Mary Jones yn Llanycil, Y Bala ddydd Mercher, 22ain o Fehefin. Trefnir y daith hon gan y Chwiorydd.

Bydd y bws yn cychwyn o Berea Newydd am 10.15 a.m.

Byddwn yn cyrraedd Gwesty'r Cross Foxes, Brithdir, Dolgellau tua hanner dydd lle gall pawb wneud ei ddewis ei hun ar gyfer cinio.

Gobeithiwn gyrraedd Canolfan Mary Jones tua hanner awr wedi un ar ôl taith trwy wlad hyfryd Dyffryn Wnion a Rhydymain ac yna blaenau afon Dyfrdwy a Llanuwchllyn cyn cyrraedd Llanycil. Yno bydd aelod o Staff y Ganolfan yn rhoi cyflwyniad byr i ni.

Bydd gweddill y prynhawn yn rhydd a thua phedwar o'r gloch trefnir i ni gael te gyda theisennod cartref.

Byddwn yn cychwyn am adref tua 5.15 p.m.a chyrraedd Bangor tua 6.30 p.m.

Am fwy o fanylion cysylltwch â Meira – 01248 364085 neu Astra – 01248 364079.

Bydd rhestr ar hysbysfwrdd y capel i chi arwyddo.

BYWYD YN Y 'JYNGL'!

Lluniau Paul Smith o Landegfan, gynt o Benrhosgarnedd, o wersyll ffoaduriaid Calais.

Hanes ar dudalen 12.